# Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymdogaethau

Cartrefi Conwy

- **Cyflog Cystadleuol**
- **Gogledd Cymru**
- **Pencadlys Abergele**

Mae Cartrefi Conwy yn gymdeithas dai arobryn, sy'n rheoli dros 4,000 o gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel ledled Conwy. Fel un o ddarparwyr mwyaf Gogledd Cymru, rydym wedi buddsoddi'n helaeth i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru ac rydym yn anelu at adeiladu 1,000 yn fwy o gartrefi dros y degawd nesaf.

Rydym yn fwy na darparwr tai yn unig - rydym wedi ymrwymo i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Mae ein his-gwmni, Creu Menter, yn fenter gymdeithasol sydd wedi ennill sawl gwobr sy'n ail-fuddsoddi elw mewn cymorth a chyfleoedd cyflogaeth lleol. Mae hefyd yn gweithredu cyfleuster gweithgynhyrchu pren yn y Rhyl ac yn darparu gwasanaeth cynnal a chadw eiddo ledled y sir.

RRydym yn chwilio am arweinydd ysbrydoledig sy'n canolbwyntio ar bobl i ymuno â ni fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymdogaethau, gan lunio dyfodol ein gwasanaethau fel rhan o'n cynllun corfforaethol Gyda'n Gilydd newydd.

Byddwch yn arwain y gwaith o ddarparu a gwella ein gwasanaethau Cymdogaethau yn barhaus, gan sicrhau rhagoriaeth cwsmeriaid, cynaliadwyedd tenantiaeth a grymuso cwsmeriaid. Byddwch yn feddyliwr gweithredol a strategol effeithiol, gan weithio'n agos gyda Phrif Swyddog Gweithredol y Grŵp, y Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid a Chymunedau, a'r Tîm Arweinyddiaeth ehangach. Mae hwn yn gyfle cyffrous i wneud gwahaniaeth parhaol yn ein cymunedau.

I gael gwybod mwy, ewch i: **www.cartreficonwy.org**

I drafod y swydd ymhellach, cysylltwch â **recruitment@cartreficonwy.org**

**Mae'r cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys:**

- Darparu gwasanaethau rheoli tai a chymorth tenantiaeth rhagorol
- Sicrhau bod llais ac adborth cwsmeriaid yn llywio penderfyniadau
- Meithrin diwylliant mewnol cydweithredol, perfformiad uchel a chynhwysol
- Gyrru arloesedd mewn strategaeth, polisi a rheoli perfformiad
- Rheoli cyllidebau a sicrhau gwasanaethau gwerth am arian
- Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a chydymffurfio â safonau rheoleiddio

**Dyddiad cau: 6 Mai 2025**

